Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# Fframwaith Cwympiadau ac Eiddilwch a Model Ymateb

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
**ambulance.nhs.wales**

## Yn 2018, datblygodd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), y Fframwaith Cwympiadau a oedd yn cynnwys y Model Ymateb i Gwympiadau. Cynlluniwyd y Fframwaith i roi eglurder o fewn y sefydliad, a hysbysu partneriaid wrth ystyried cynllunio a gweithredu gwasanaethau lleol sy'n darparu gofal i gleifion sydd wedi cael cwymp.

Ers ei gyflwyno yn 2018, mae’r Fframwaith wedi arwain at welliannau ac arloesedd sylweddol o fewn yr Ymddiriedolaeth, ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Awdurdodau Lleol ac o fewn y sectorau annibynnol. Mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i rannu o fewn fforymau lleol a chenedlaethol ac mae wedi bod yn ysgogydd allweddol ar gyfer ffurfio ‘Fframwaith Llywodraethu Ymateb i Gwympiadau Cenedlaethol AACE ar gyfer Ymddiriedolaethau Ambiwlans y GIG’. Mae’r Fframwaith wedi galluogi’r sefydliad i arwain a gweithredu newidiadau trawsnewidiol ar raddfa fawr, gan wella’r ymateb a’r gofal i gleifion sydd wedi cael cwymp.

Ers 2018 cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth rôl Cynorthwyydd Cwympiadau mewn cydweithrediad ag Ambiwlans Sant Ioan Cymru. Trwy gymhwyso'r Fframwaith Cwympiadau ac Eiddilwch, rydym wedi gweld prosesau gwell yn ein Canolfan Cyswllt Clinigol (CCC) a gwybodaeth a hyder staff a gefnogir wrth ddarparu gofal i'n cleifion. Gyda chefnogaeth ein partneriaid yn y Bwrdd Iechyd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ein Hymateb Cwympiadau amlddisgyblaethol (Parafeddyg a Therapydd), i wella'r asesiad a'r canlyniadau ar gyfer cleifion hŷn sydd wedi cael cwymp.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu o fewn amgylchedd cymhleth, gyda phwysau system lluosog sy'n aml yn effeithio ar ein gallu i ddarparu ymateb amserol, priodol. Drwy gydol Pandemig COVID-19, rydym wedi bod yn ymgysylltu’n frwd â byrddau iechyd i bennu anghenion y boblogaeth leol a chynllunio gwelliannau i wasanaethau. Mae'r gwelliannau hyn yn amrywio o atal, i gefnogi cymunedau a gwasanaethau lleol i helpu i ddarparu'r gofal iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn.

Mae cwympiadau yn her fawr i iechyd y cyhoedd gyda goblygiadau i wasanaethau iechyd yn ogystal â gwasanaethau brys a gofal parhaus. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried cwympiadau yng nghyd-destun ein poblogaeth sy'n heneiddio ac fel un o nifer o syndromau sy'n gysylltiedig ag eiddilwch.

**Mae 30% o bobl 65 oed neu hŷn sy'n byw mewn cartrefi yn disgyn bob blwyddyn*.**

**Mae data cenedlaethol yn dangos bod 50% o bobl dros 80 oed yn cwympo bob blwyddyn.**

Gall cwymp nodi dechrau dirywiad gweithredol mewn dros draean o bobl. Gall y profiad o gwympo achosi trallod, poen, anaf, mynd i'r ysbyty a cholli annibyniaeth.

Mae'r Fframwaith diwygiedig yn ystyried ac yn cydnabod y dysgu sylweddol o welliannau a heriau system gyfan. Yn 2021, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth y Fframwaith Pobl Hŷn yn ffurfiol, sy'n amlygu ein rôl fel cynullydd system, gan sicrhau y gallwn weithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu mynediad amserol at ofal. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn pwysleisio'r angen i ystyried Eiddilwch fel cyflwr clinigol cydnabyddedig, a chwympiadau fel un o amlygiadau Eiddilwch. Wrth ddatblygu'r Fframwaith hwn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Fframwaith Pobl Hŷn, bydd yr Ymddiriedolaeth yn chwilio am gyfleoedd ac yn gwella cymorth i gleifion sy'n aros gartref, neu'n ceisio gofal priodol yn y gymuned a/neu mewn ysbyty.

*www.nice.org.uk/guidance/cg161

**Yn 2019, roedd 65% (283,153) o’r holl ddigwyddiadau a dderbyniwyd (445,154), gan gleifion dros 55 oed.**

**Roedd dros 60% o’r digwyddiadau a dderbyniwyd gan gleifion dros 55 oed (226,227) yn galw am ymateb i leoliad y digwyddiad, ac roedd angen cludo tua 56% o gleifion (158,830) i’r ysbyty, i gael asesiad a/neu driniaeth bellach.**

**Amcangyfrifir bod “tua 10% o bobl dros 65 oed yn eiddil, gan godi i rhwng chwarter a hanner y boblogaeth dros 85 oed” (BGS, 2017).**

Fel gwasanaeth ambiwlans rydym yn ymwybodol iawn ac yn cydnabod pwysigrwydd darparu mynediad amserol at ofal sy'n briodol i gyflwr y claf. Yn aml, mae angen cymorth gan dimau amlddisgyblaethol ar unigolion sy'n profi cychwyniad neu waethygiad o amlygiad eiddilwch, er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal yn y cartref neu'n agosach ato. Nid yw amlygiad eiddilwch o fewn y sefyllfa argyfwng “yn aml yn cael ei gydnabod nes bod person mewn argyfwng, er enghraifft yn dilyn cwymp sylweddol. Gall hyn wedyn arwain at dderbyniadau i’r ysbyty, digwyddiad a allai sbarduno canlyniadau gwaeth i rywun sy’n eiddil.” (BGS, 2017).

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac mae ganddi rôl allweddol o ran darparu porth i ofal sy'n cefnogi unigolion a chymunedau i gael mynediad at y gwasanaeth mwyaf priodol, ar y cyfle cyntaf. Yn aml, oherwydd galw cynyddol a phwysau system ehangach, bydd cleifion ar adegau yn aros yn hirach yn y gymuned am ymateb, lle mae arosiadau hir yn arwain at ddirywiad yn eu cyflwr clinigol a gall gael mwy o effaith ar eu statws ffisiolegol a seicolegol ehangach.

Mae’n hanfodol ein bod ni fel Ymddiriedolaeth yn gallu nodi a chefnogi cleifion sydd mewn argyfwng a’r cleifion hynny sydd mewn perygl o ddirywiad difrifol. Yn ogystal, mae angen i ni sicrhau, “os nad yw claf yn ddifrifol wael ond yn methu â chynnal ei sefyllfa bresennol yn y gymuned oherwydd newid dros dro yn ei anghenion gofal, ei bod yn arfer da ac yn well i’r person sy’n eiddil drosglwyddo gofal i wasanaeth cymunedol ymatebol, yn hytrach na chael ei dderbyn i’r ysbyty” (BGS, 2017, t.13).




**“Rydym wedi bod yn ymgysylltu â Byrddau Iechyd a rhanddeiliaid i ddatblygu a gwella ein hymateb i gwympiadau ac eiddilwch.”**

# Y Fframwaith Cwympiadau ac Eiddilwch a'r Model Ymateb

## Mae'r Fframwaith Cwympiadau ac Eiddilwch (FFF) ac yn benodol y Model Ymateb i Gwympiadau ac Eiddilwch (FFRM), yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu a darparu gwasanaethau cyfannol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar atal, ymateb ac atal niwed pellach.

Cydnabyddir yn eang bod cwympiadau yn aml yn symptom o gyflwr eiddilwch ehangach. Yn ystod 2020, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 50,123 o ddigwyddiadau gan gleifion a oedd wedi cwympo. Mae cwympiadau yn parhau i fod yn un o'r prif resymau y mae person yn ffonio 999. Mae datblygiad y model hwn yn cydnabod, er bod cwympiadau yn symptom o eiddilwch ehangach, bod angen gwasanaethau asesu a/neu ymateb penodol yn aml ar gyfer cleifion sydd wedi cael cwymp o fewn y gymuned, er mwyn sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel i gleifion.

Bydd y FFRM yn sicrhau y gallwn asesu anghenion cleifion sy'n aros yn y gymuned yn ddiogel a darparu'r cyngor a'r cymorth mwyaf effeithiol, a all gynnwys ymateb ambiwlans brys neu beidio. Bydd y model yn ein cynorthwyo i nodi'r cleifion hynny a allai elwa o ymateb arbenigol amgen i wneud y gorau o'r cyfleoedd i dderbyn gofal yn nes at eu cartrefi.

Cydnabyddir y gall cleifion sy'n profi eiddilwch dangos amlygiad o'r hyn sy'n ymddangos yn aml yn symptom syml, sydd yn aml yn arwydd o gyflwyniadau meddygol sylfaenol cymhleth (BGS, 2017).

### Bydd y Fframwaith yn anelu at:

Amlygu sut y gall yr Ymddiriedolaeth a phartneriaid yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a gwirfoddol gefnogi cleifion sy'n profi cwympiad neu amlygiad eiddilwch arall;

Cefnogi cydweithredu rhwng sefydliadau, trwy ddatblygu ymwybyddiaeth gyffredin, mwy o hyder a chyfleoedd i wella gwasanaethau;

Diwallu anghenion cleifion sydd wedi profi amlygiad eiddilwch/cwympiad, gan ddefnyddio dull system gyfan o atal cwympiadau ac eiddilwch, ymateb i gwympiadau ac eiddilwch a lleihau niwed;

Cefnogi'r Ymddiriedolaeth i nodi bylchau yn y system ehangach a phennu cyfleoedd i ddarparu mynediad ymatebol ac amserol i wasanaethau i gefnogi cleifion i aros gartref.




www.bgs.org.uk/resources/introduction-to-frailty

# Eiddilwch

Amcangyfrifir bod "tua 10% o bobl dros 65 oed yn eiddil, gan godi i rhwng chwarter a hanner y boblogaeth dros 85 oed" (BGS, 2017).

Fel gwasanaeth ambiwlans rydym yn dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd ymateb amserol a phriodol i gleifion sy'n profi amlygiad syndrom sy'n gysylltiedig ag eiddilwch.

Mae Cymdeithas Geriatrig Prydain yn disgrifio eiddilwch fel:

"Cyflwr a gydnabyddir yn glinigol o fwy o fregusrwydd ymhlith oedolion hŷn. Mae'n gysylltiedig â dirywiad yng nghronfeydd corfforol a seicolegol unigolyn. Er bod eiddilwch yn deillio o heneiddio, nid yw'n rhan anochel o heneiddio. Fel diabetes neu glefyd Alzheimer, mae eiddilwch yn gyflwr hirdymor. Nid yw graddau eiddilwch unigolyn yn sefydlog. Gall gael ei wella neu ei waethygu, yn dibynnu ar y gofal a dderbynnir pan fydd unigolyn yn cyflwyno i weithiwr iechyd proffesiynol." (BGS, 2017).

## At ddibenion y FFRM, bydd cyflwyniadau eiddilwch yn cael eu dosbarthu fel y symptomau canlynol:

**Cwympiadau (e.e. cwymp, coesau'n ildio, 'wedi canfod yn gorwedd ar y llawr');**

**Ansymudedd (e.e. Newid sydyn mewn symudedd, 'methu defnyddio coesau'n iawn' 'yn sownd yn y toiled');**


**Deliriwm (e.e. dryswch acíwt, dryswch yn gwaethygu'n sydyn mewn rhywun sydd â dementia blaenorol neu golled cof hysbys);**

**Anymataliaeth (e.e. Newid mewn ymataliaeth - cychwyniad neu waethygiad anymataliaeth troethi neu ysgarthion);**

**Tueddiad i sgîl-effeithiau meddyginiaeth (e.e. Dryswch gyda codin, isbwysedd gyda gwrth-iselyddion).**
**(BGS, 2017, t.8)**

## Mae'r Fframwaith Cwympiadau ac Eiddilwch (FFF) yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

- **Atal**
- **Cefnogi Cadernid Cymunedol**
- **Asesu (Clywed a Thrin)**
- **Ymateb (Gweld a Thrin)**
- **Osgoi Niwed Pellach**



# Atal

## Mae natur ein holl wasanaethau yn rhoi’r Ymddiriedolaeth mewn cysylltiad uniongyrchol â chleifion, teuluoedd, a gofalwyr ac rydym yn cydnabod bod ein cyswllt â’r cyhoedd, yn aml yn eu cartrefi eu hunain, yn rhoi cyfle unigryw a gwerthfawr nid yn unig i asesu’r claf ei hun, ond hefyd yr amgylchedd y maent yn byw ynddo. Yn ogystal, rydym yn aml yn gallu asesu'n gyfannol ar gyfer ffactorau a allai gynyddu'r risg y bydd unigolyn yn cwympo a'r risg o eiddilwch.

Gall cleifion sy'n profi syndromau eiddilwch newydd neu sy’n gwaethygu gael mynediad at wahanol feysydd o'r gwasanaeth ar wahanol adegau. Gallai hyn gynnwys cyrchu 111 am gyngor a chymorth, derbyn cludiant drwy'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys, neu dderbyn gofal brys/argyfwng i atal dirywiad mewn argyfwng. Drwy'r holl fannau mynediad amrywiol, y gall pobl gysylltu â'r Ymddiriedolaeth drwyddynt, mae'n hanfodol bod pob cyfle yn cael ei roi i atal cwympiadau a datblygiad symptomau eiddilwch.

Yn sylfaenol, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni fel sefydliad gydnabod yn gyflym angen newydd neu ddirywiad o fewn llinell sylfaen y claf, cyfeirio cleifion fel y bo'n briodol ac annog cleifion i geisio mynediad at wasanaethau a ddarperir yn y gymuned neu'r trydydd sector.

Mae gwasanaeth 111 GIG Cymru yn darparu gwybodaeth a chyngor iechyd am ddim, mynediad at ofal sylfaenol brys y tu allan i oriau, fel meddyg neu nyrs a gall gyfeirio cleifion at y gwasanaeth mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Yn ogystal, bydd y wefan yn sicrhau bod cleifion yn cael y cyngor diweddaraf ynghylch eu cyflwyniad a ble i gael cymorth pellach os oes angen.

Yn ddelfrydol, bydd gan bob lleoliad daearyddol fynediad at wasanaethau atal, a fydd yn cynorthwyo cleifion i gael mynediad at gyngor/cymorth unigol. Bydd hyn yn amrywio o raglenni ymarfer cryfder/cydbwysedd i dimau Cwympiadau/Iechyd Esgyrn arbenigol a gwasanaethau asesu eiddilwch. Dylai cleifion sydd mewn perygl o gwympo, neu sy'n profi eiddilwch newydd neu waethygu, gael mynediad at y gwasanaethau hyn, er mwyn cael cyngor ac arweiniad personol.

Yn dilyn gofal gan staff ambiwlans, dylid cyfeirio cleifion sydd wedi cael cwymp neu sydd ag amlygiad eiddilwch at wasanaethau lleol. Dylid cytuno ar yr amserlen ar gyfer dilyniant ynghylch atgyfeiriad ar y pwynt atgyfeirio. Dylid ystyried cyfleusterau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC) a/neu wasanaethau asesu cymunedol cyflym, os ydynt ar gael, i gefnogi cleifion sy’n aros gartref, ar ôl cyfnodau byr o ofal/triniaeth. Yn ogystal ag atgyfeiriadau, ar ôl ymateb ambiwlans (ffôn neu wyneb yn wyneb), dylid darparu rhwydi diogelwch a chymorth digonol i’r claf. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gyflyrau sy'n gwaethygu a phryd i ofyn am gyngor a phwy i gysylltu â nhw. Bydd y cyngor a ddarperir yn wahanol yn seiliedig ar argaeledd a gwasanaethau yn y gymuned.

Wrth ystyried cyngor atal eiddilwch, y dylanwadau allweddol y gellir eu haddasu yw gweithgaredd corfforol (ymwrthedd ymarfer corff), diet a gostyngiad yn yr achosion o ordewdra (BGS, 2017).

# Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS)

**Bob dydd, mae cydweithwyr NEPTS yn mynd i mewn i gartrefi cleifion i ddarparu gofal a chludiant i apwyntiadau ysbyty ac apwyntiadau clinigol arferol.**




Yn aml bydd staff yn datblygu perthynas hirdymor gyda chleifion a byddant yn sylwi'n aml pan fydd newidiadau bach yn digwydd o fewn ffordd o fyw neu amgylchiadau personol yr unigolyn. Gall staff NEPTS asesu peryglon posibl ac arwyddion o ddirywiad defnyddiwr gwasanaeth, yn eu cartref eu hunain a chefnogi'r unigolyn trwy eu hannog i hunanatgyfeirio neu os oes angen, cwblhau'r atgyfeiriad ar eu rhan. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod cysylltiadau priodol yn bodoli rhwng NEPTS ac awdurdod lleol/gofal cymdeithasol, i sicrhau bod cleifion sydd â risg uwch o gwympo neu eiddilwch yn cael eu hasesu’n gyflym i atal dirywiad, a lleihau derbyniadau i’r ysbyty.

# Cefnogi Cadernid Cymunedol

**O ganlyniad i'r pwysau gweithredu sylweddol, fel sefydliad nid yw'r Ymddiriedolaeth weithiau'n gallu darparu ymatebion amserol ac effeithiol i gleifion sy'n aros yn y gymuned.**

Er mwyn sicrhau bod adnoddau ambiwlans ar gael i roi sylw i'r cleifion hynny y mae angen ymateb brys arnynt, mae cadernid cymunedol yn hanfodol bwysig i helpu i ofalu a chefnogi cleifion yn eu cartrefi eu hunain. Yn aml, cefnogaeth gymunedol, argaeledd gwasanaethau a rhwyddineb mynediad yw'r gwahaniaeth rhwng rhywun sydd angen derbyniad i'r ysbyty, yn hytrach nag aros gartref.

**Wrth ystyried Cadernid Cymunedol yng nghyd-destun y Model Cwympiadau ac Eiddilwch, yr elfennau allweddol yw fel a ganlyn:**

- **Cartrefi Gofal a Darparwyr Gofal Cartref;**
- **Ymateb Gwirfoddolwyr gan gynnwys Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned;**
- **Gwasanaethau Ymateb yn y Gymuned;**
- **Ymatebwyr Cwympiadau Tân ac Achub.**

# Cartrefi Gofal a Darparwyr Gofal Cartref

## Yng Nghymru mae dros 1,000 o Gartrefi Gofal cofrestredig (cartrefi nyrsio a phreswyl). Mae'r Ymddiriedolaeth yn aml yn cael ei galw i fynychu cleifion sydd wedi cwympo neu sy'n profi dechreuad newydd neu eiddilwch yn gwaethygu yn y cartref gofal.

Mae'n annerbyniol i ddarparwyr gofal wneud ceisiadau fel mater o drefn am ymateb ambiwlans brys i godi cleifion nad ydynt wedi cael anaf neu sydd ag amlygiadau eiddilwch acíwt is, y gellid eu rheoli yn y cartref. Nid yw polisïau cyffredinol 'paid â chodi' yn dderbyniol ac ni ddylid eu mabwysiadu mewn perthynas â gweithdrefnau symud a thrin. Mae WAST yn cydnabod bod amrywiaeth sylweddol o ran asesu, trin a gofalu yn bennaf am gleifion sydd wedi cael cwymp. Yn aml, mae gweithdrefnau hyder, hyfforddiant a llywodraethu yn y cartref gofal yn allweddol i sicrhau proses ddiogel a chadarn. Bydd WAST yn cefnogi cartrefi gofal a chomisiynwyr awdurdodau lleol i ddeall pryderon penodol a chwilio am gyfleoedd i wella.




Mae gan y Ddesg Cymorth Clinigol (CSD) a GIG 111 Cymru rôl allweddol o ran sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu cefnogi wrth iddynt wneud penderfyniadau, ac i sicrhau bod offer a allai fod ar gael yn hawdd yn cael eu defnyddio'n briodol. Er enghraifft, yn dilyn brysbennu priodol dros y ffôn, gallai claf sy'n cyflwyno mân anaf gael ei godi'n ddiogel oddi ar y llawr gan staff cartref gofal.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio gyda chartrefi gofal amrywiol i gefnogi codi cleifion yn ddiogel sydd wedi cwympo heb fod angen ffonio 999. Rydym wedi cynnal dadansoddiad galw o ble rydym yn derbyn galwadau cyson gan Gartrefi Gofal yn ymwneud â chwympiadau ac wedi gweithio gyda'r cartrefi hyn i gaffael cymhorthion codi priodol a darparu hyfforddiant a chymorth i staff. Yn ogystal, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid allanol megis awdurdodau lleol sy'n cefnogi ac yn cyflwyno'r offeryn ISTUMBLE. Yn 2018, nododd yr Ymddiriedolaeth, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC), gyfanswm o 604 o gartrefi gofal a oedd yn gymwys ar gyfer dyroddi offer codi a hyfforddiant.

Yn genedlaethol, danfonwyd offer i'r cartrefi gofal ac fe'i cwblhawyd erbyn mis Mawrth 2019. Darparwyd rhaglen hyfforddi dwy awr i staff yn y cartref gofal, a oedd yn cynnwys pwysigrwydd gwneud penderfyniadau da ar ôl cwympo, y defnydd o'r offeryn ISTUMBLE a'r defnydd o glustog codi Mangar Camel. Cynhaliwyd archwiliad pellach o ddata cartrefi gofal yn ddiweddar a bydd hwn yn pennu'r camau nesaf mewn perthynas â gwella.

# Ymateb Gwirfoddolwyr gan gynnwys Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned

**Elfen allweddol o gefnogi cadernid cymunedol yw gwerthfawrogi cyfraniad ein gwirfoddolwyr.**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ffodus i gael mwy na 2,000 o wirfoddolwyr sy'n darparu cefnogaeth werthfawr i'n gwasanaethau, boed fel Gyrwyr Ceir Gwirfoddol neu fel Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned (CFRs). Un o'r ffrydiau gwaith allweddol ar gyfer ein Cynllun Gwella oedd cynyddu cyfraniad ein timau CFR i ymateb i gleifion a oedd wedi cwympo, ond heb eu hanafu ac angen cymorth oddi ar y llawr. Yn dilyn prynu cymhorthion codi ychwanegol rydym bellach wedi gallu cefnogi timau ychwanegol ledled Cymru i ymateb i'r lefel hon o angen. Bydd y gwaith hwn yn parhau fel rhan o'r Fframwaith Cwympiadau ac Eiddilwch ac mae'n elfen allweddol o'n Model Ymateb i Gwympiadau ac Eiddilwch.

# Gwasanaethau Ymateb yn y Gymuned

**Mae yna wasanaethau ymateb yn y gymuned amrywiol a all, ac a allai, gefnogi WAST i ddarparu ymateb effeithiol amserol.**

Mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ymgysylltu'n frwd â byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a chymunedau i gefnogi gwasanaethau ymateb yn y gymuned. Gallai hyn gynnwys timau nyrsio ardal, timau ymateb cyflym a thimau cymorth yn y gymuned. Yn dibynnu ar eu sgiliau a'u galluoedd, gall timau ymateb a darparu gofal i gleifion wrth aros am ymateb neu fel dewis arall yn lle ymateb ambiwlans. Bydd WAST yn sicrhau bod gan sefydliadau sy'n darparu'r lefel hon o ymateb Gytundeb Lefel Gwasanaeth cydnabyddedig a'u bod yn dilyn Gweithdrefn Weithredu Safonol benodol.

# Ymatebwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub

**Mae gan Ymatebwyr y Gwasanaeth Tân yr hyfforddiant a'r cyfarpar er mwyn asesu a chodi cleifion sydd wedi cael cwympiadau anafus ac anafus posibl yn ddiogel.**

Gall Ymatebwyr y Gwasanaeth Tân ddarparu cymorth cyntaf sylfaenol o fewn eu lefel cymhwysedd hyfforddedig. Darperir cymorth ychwanegol gan dimau cymorth clinigol WAST i sicrhau triniaeth ddiogel i gleifion, priodoldeb diffyg trawsgludiad neu angen am ymateb ambiwlans brys. Lle bo diffyg trawsgludiad yn briodol, bydd timau cymorth clinigol WAST yn nodi llwybrau gofal amgen i gefnogi gofal parhaus y claf, lle bo angen.

# Model Ymateb Cwympiadau ac Eiddilwch (FFRM)

## Asesu (Clywed a Thrin - Ymgynghori a Chau)

Mae ein FFRM arfaethedig yn disgrifio tair lefel eang o ymateb ar gyfer cwympiadau a digwyddiadau yn ymwneud ag eiddilwch. Er mwyn sicrhau bod yr ymateb priodol yn cael ei anfon yn ôl yr angen, mae angen i'r asesiad ffôn fod yn gadarn ac yn effeithiol. Yn ogystal, mae datblygiad parhaus ein Desg Glinigol yn y Canolfannau Cyswllt Clinigol yn hollbwysig. Bydd hyn yn galluogi strwythur llywodraethu cadarn o amgylch adnoddau sy'n gallu ymateb (ambiwlans a chymuned), hwyluso a chefnogi partneriaeth ag asiantaethau eraill a sefydliadau trydydd sector i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Mae GIG 111 Cymru yn allweddol wrth asesu digwyddiadau pan fydd adnodd amgen yn cyrraedd y lleoliad, gan fod y clinigwr yn sicrhau bod y claf wedi'i godi'n ddiogel oddi ar y llawr neu fod yr asesiad priodol wedi'i ddarparu.

Os bydd cwymp, byddant yna yn cyfeirio'r claf at ddarparwr gofal sylfaenol priodol, neu os nodir anaf, yn sicrhau bod yr ymateb yn cael ei gategoreiddio'n briodol ac yr anfonir ymateb priodol. Os yw'r digwyddiad yn ymwneud ag eiddilwch, bydd y tîm desg cymorth clinigol neu 111 yn sicrhau bod cleifion yn cael gwasanaeth ymateb amlddisgyblaethol arbenigol, lle bo hynny ar gael ac yn briodol.

Rydym wedi datblygu model sy'n cydnabod na fydd angen ymateb ambiwlans brys ar gyfer pob achos o gwympo neu gyflwr sy'n ymwneud ag eiddilwch, ac nad oes angen cludo llawer o bobl i'r ysbyty. Mae'r model ar dudalen 12 yn disgrifio ein Model Ymateb i Gwympiadau ac Eiddilwch arfaethedig ac mae'n seiliedig ar egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus.



**"Mae natur ein holl wasanaethau yn ein rhoi mewn cysylltiad uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofalwyr."**

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth dimau amrywiol sy'n gallu ymateb i gleifion sydd wedi cwympo neu sydd ag amlygiad o eiddilwch. Mae'r timau ymateb ambiwlansys amgen hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:**

## Cynorthwywyr Cwympiadau (gan gynnwys Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned gyda sgiliau estynedig)

Mae hon yn rôl anghlinigol, lle mae'r cynorthwyydd yn rhoi sylw i achosion o gwympo ac eiddilwch. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gynorthwyo cleifion i godi'n ddiogel o'r llawr a/neu gwblhau set sylfaenol o arsylwadau. Bydd hyn yn cynorthwyo'r ganolfan gyswllt glinigol i bennu'r cleifion hynny sydd mewn perygl o ddirywiad pellach neu'r rhai sydd angen ymateb ar unwaith. Bydd y darparwr Cynorthwyydd Cwympiadau (FA) yn darparu gwasanaethau Ymateb i Gwympiadau i gleifion sydd wedi cwympo a/neu sydd angen ymateb cymorth lles yn dilyn cyswllt trwy 999. Byddant yn darparu ymateb amserol i gleifion sydd wedi cael cwymp 'di-anaf' neu 'mân anaf'. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd disgwyl i'r FA fynychu digwyddiadau lle mae cleifion wedi cael 'anaf' lle gallant ddarparu cymorth cyntaf sylfaenol, a rhoi cyffuriau lleddfu poen. Bydd hyn bob amser o dan gyfarwyddyd y dosbarthwr dyrannu a/neu Glinigwyr sy'n gweithio yn y Ganolfan Gyswllt Glinigol. Mae ymatebwyr yn cael eu hyfforddi i gofnodi arsylwadau clinigol i gynnwys lefel ymwybodol, cyflymder y galon, dirlawnder ocsigen, pwysedd gwaed a chyfradd anadlol. Bydd y cyfan wedyn yn hwyluso cyfrifo sgôr NEWS. Bydd yr FA yn gweithio tuag at Weithdrefn Weithredu Safonol a bydd yn mynychu hyfforddiant gloywi yn rheolaidd. Ar hyn o bryd mae darpariaeth ymateb yr FA yn cael ei darparu gan Ambiwlans Sant Ioan Cymru ac yn darparu o leiaf un ymateb FA ym mhob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd.

## Gwasanaethau Ymateb i Gwympiadau (FRS) /Gwasanaethau Eiddilwch a Chwympiadau (FFRS)

Mae timau'r FRS a'r FFRS yn darparu ymateb Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd amlddisgyblaethol sy'n cynnwys naill ai Nyrs, Parafeddyg neu Ymarferydd Parafeddygol Uwch a Therapydd (Ffisiotherapydd neu Therapydd Galwedigaethol), sy'n gallu ymateb i godymau cymhleth a chyflwyniadau cysylltiedig ag eiddilwch. Gall y tîm ddarparu gwasanaeth integredig i gleifion sydd wedi defnyddio'r system '999' heb ei drefnu. Trwy ddarparu ymateb amserol, ac yna asesiad meddygol a chymdeithasol llawn pan fo angen, gellir cyfeirio cleifion yn llwyddiannus at y llwybr(au) gofal amgen mwyaf priodol. Bydd hyn yn y pen draw yn lleihau derbyniadau diangen i'r adran achosion brys trwy gyflenwi gwasanaethau ar y cyd, wedi'u cydlynu.

Gall sgiliau'r tîm helpu i ddarparu ymateb brys i gleifion yr ystyrir eu bod yn 'flaenoriaeth glinigol is' i leihau niwed pellach o ganlyniad i gyfnodau estynedig o 'orwedd hir' ar y llawr. Maent hefyd yn gallu darparu ymateb brys i gleifion yr ystyrir eu bod yn 'gymhleth' ac y mae angen lefel sylweddol o ymyrraeth arnynt i atal derbyniadau i leoliadau acíwt, o ganlyniad i gwympiad neu eiddilwch.

Bydd angen i ymatebwyr gael mynediad at lwybrau priodol sy'n cynnwys mynediad amserol at wasanaethau yn y gymuned, sy'n ymateb i anghenion clinigol a chymdeithasol y claf. Bydd y timau'n gweithredu yn unol â Gweithdrefn Weithredu Safonol benodol, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar y lefelau lleol o fynediad at wasanaethau cymorth unigol.

## Asesiad (Ymateb)

Mae ein Model Ymateb i Gwympiadau ac Eiddilwch yn disgrifio tair lefel eang o ymateb. Mae pob lefel o ymateb yn cynrychioli'r craffter clinigol a'r risg tebygol ar gyfer dirywiad y claf. Po uchaf yw lefel yr ymateb, y mwyaf tebygol yw hi y bydd angen ymateb ambiwlans. Byddai lefel is yr ymateb yn awgrymu bod mwy o gyfle i ddefnyddio ymateb arall gan y gymuned neu'r Ymddiriedolaeth. Mae'r lefelau yn ganllaw i glinigwyr yn seiliedig ar yr wybodaeth a dderbyniwyd ar adeg yr alwad, ac i benderfynu ar y math mwyaf priodol o ymateb mewn perthynas â'r claf sy'n cyflwyno cyflwr.

Gellir darparu ymatebion gan Gynorthwywyr Cwympiadau, Gwasanaethau Ymateb i Gwympiadau ac eraill i lefelau amrywiol o ymateb, fodd bynnag, maent yn fwyaf tebygol o fod yn effeithiol o fewn Lefel 1 neu 2 y model ymateb. Yn y pen draw, bydd angen i gleifion sydd angen Lefel 3 neu ymateb ambiwlans gael eu cludo i'r ysbyty ac felly efallai na fyddant yn addas ar gyfer ymateb arall. Mae'n debygol y byddai'r cleifion hynny sydd wedi'u dosbarthu fel Lefel 1/Lefel 2 yn derbyn gofal gartref. Fodd bynnag, os caiff ei amser aros ei ymestyn neu os nodir pryder, gall fod yn briodol, yn dilyn brysbennu clinigol, i ddarparu ymateb WAST neu ymateb yn y gymuned amgen yn y cyfamser.

O fewn y ganolfan gyswllt glinigol, mae codau penodol wedi'u pennu'n addas ar gyfer adnoddau cynorthwywyr cwympiadau i'w mynychu heb fod angen brysbennu desg cymorth clinigol  cychwynnol. Yn ogystal, mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol wedi'u datblygu, sy'n manylu ar gwmpas a chylch gwaith gweithredu timau ymateb arbenigol. Dylai timau gyfeirio at ganllawiau penodol a chyfarwyddebau lleol lle bo'n briodol.

### Mae'r tair Lefel eang o Ymateb i Gwympiadau ac Eiddilwch fel a ganlyn:

- **Ymateb Ambiwlans Brys Lefel 3: Cwympiad:** Anaf Difrifol Eiddilwch; Salwch Difrifol.
- **Ymateb Lefel 2**
  **Cwympiad:** Mân anaf/pryder am anaf posibl.
  **Eiddilwch:** cychwyniad neu waethygiad symptom eiddilwch.
- **Ymateb Lefel 1:**
  **Cwympiad:** pryder am les - dim anaf hysbys.
  **Eiddilwch:** Dim cychwyniad na waethygiad o symptom eiddilwch.

**LEFEL 3**


**Cwympiad ac Eiddilwch: Anaf/salwch difrifol**
**AMBIWLANS BRYS**

**LEFEL 2**

**Cwympiad: Mân anaf/anaf posibl**
**Eiddilwch: Cychwyniad neu waethygiad symptom eiddilwch**

**LEFEL 1**

**Cwympiad: Dim anaf hysbys/pryder am les**
**Eiddilwch: Dim cychwyniad newydd na waethygiad o eiddilwch**



## Lefel 1:

Yn 2017, roedd 3,708 o ddigwyddiadau wedi'u dilysu ar gyfer cwympiadau heb anafiadau/mân anafiadau. Er bod hyn ond yn cyfrif am 5.93% o gyfanswm y galwadau Cod 17 (62,488), mae gan y galwadau hyn y potensial i gynyddu o alwad werdd i alwad ambr po hiraf y bydd y person ar y llawr. Ar adegau o alw brig, mae'r galwadau hyn yn llithro ymhellach i lawr y 'pentwr' wrth i alwadau â blaenoriaeth a aseswyd yn uwch ddod i mewn i'r gwasanaeth. Mae'r arosiadau hir sy'n dilyn ar gyfer y bobl yn y sefyllfa hon wedi bod yn thema i'n cwynion a'n pryderon ac a nodwyd o fewn rhai o'n Digwyddiadau Niweidiol Difrifol.

Lle nad oes tystiolaeth o gychwyniad eiddilwch neu eiddilwch yn gwaethygu, yna gall claf elwa ar ymateb Lefel 1.

I grynhoi, prydlondeb yr ymateb i'r galwadau hyn yw'r flaenoriaeth bwysicaf i atal niwed pellach rhag digwydd.

**Ymateb Delfrydol:**
Yr ymateb delfrydol ar gyfer y math hwn o ddigwyddiad fyddai Cynorthwyydd Cwympiadau. Fodd bynnag, os nad yw'r ymateb hwn ar gael, yna dylid ystyried Ymateb Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau neu ddewis arall.

## Lefel 2:

Mae angen ymateb Lefel 2 naill ai pan nad yw'n glir a oes anaf ai peidio neu lle mae gan y claf cydafiacheddau neu anghenion cymhleth. Yn ogystal, byddai'r lefel hon o ymateb yn cynnwys y cleifion hynny sy'n profi cychwyniad neu waethygiad eiddilwch.

Yn aml mae angen asesiad cynhwysfawr o'r person yn eu cartref eu hunain a gweithredu cynllun gofal priodol yn ôl yr angen ar gleifion o fewn y lefel hon o ymateb. Yn aml, bydd angen mynediad at wasanaethau cymunedol ymatebol arbenigol ar gleifion sy'n profi cymhlethdod, boed o ganlyniad i gwympiad neu eiddilwch.

**Ymateb Delfrydol:**
Yr ymateb delfrydol ar gyfer y math hwn o ddigwyddiad fyddai Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau neu dîm Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau ac Eiddilwch. Os nad yw'r ymateb hwn ar gael, yna dylid ystyried Ymateb Cynorthwyydd Cwympiadau neu ddewis arall. Gall tîm amlddisgyblaethol arbenigol ddarparu dilyniant priodol (o bell neu yn y fan a'r lle) os oes angen, i gefnogi'r claf i aros gartref.

## Lefel 3:

Lle mae asesiad Clywed a Thrin wedi nodi bod person wedi dioddef anaf difrifol oherwydd cwympiad, bydd ymateb ambiwlans brys yn cael ei ddefnyddio. O fewn y rhan hon o'r model mae angen sefydlu llwybrau effeithiol, e.e. llwybrau Torasgwrn Gwddf y Femur (NOF). Mae llwybrau o'r fath yn sicrhau bod pobl yn cael eu derbyn i'r lle iawn ac yn osgoi adrannau brys prysur mewn ysbyty lle bo modd.

Yn ogystal, pan fydd claf yn profi amlygiad eiddilwch sy'n arwain at salwch difrifol, dylid anfon ymateb brys at gleifion.

**Ymateb Delfrydol:**
Yr ymateb delfrydol ar gyfer y math hwn o ddigwyddiad fyddai ambiwlans brys. Os nad oes ymateb ambiwlans brys ar gael, yna gellid ystyried Cynorthwyydd Cwympiadau neu ymateb arall. Dyma lle y gall fod angen darparu cyffuriau lleddfu poen digonol a/neu asesiad gweledol o gleifion, i lywio penderfyniadau clinigol.

# Osgoi Niwed Pellach

## Nodi eiddilwch a mynediad at llwybrau cwympo/eiddilwch

Mae Cwympiadau ac Eiddilwch wedi'u cysylltu'n gynhenid. Mae cydnabod amlygiadau eiddilwch yn gynnar yn bwysig iawn i sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau cymunedol priodol i'w cefnogi i aros yn weithgar ac yn annibynnol. Bydd WAST yn sicrhau bod staff yn gallu nodi eiddilwch trwy offer sgrinio eiddilwch cydnabyddedig a bod ganddynt fynediad at wasanaethau sy'n atal dirywiad. Mae argaeledd ac ymatebolrwydd gwasanaethau yn y gymuned yn hanfodol i sicrhau bod cleifion yn cael y cyngor hunanofal cywir.

## Atal Ardaloedd Pwysau

Gall briwiau pwyso, a elwir yn gyffredin yn briwiau gorwedd, ddatblygu oherwydd pwysau cynyddol ar y croen gan arwain at anaf/difrod. Rydym wedi dechrau gweithio gyda Chanolfan Arloesedd Clwyfau Cymru a Maureen Fallon (yn arwain ar argymhellion o’r Adroddiad Flynn) gan nodi'r strategaethau atal anafiadau pwyso y mae angen eu sefydlu o fewn WAST.

**Rydym yn cydnabod bod nifer o ffactorau cyfrannol sy'n cynyddu risg person o ddatblygu briwiau pwyso, megis:**

- **Cyfnod o amser estynedig ar y llawr yn aros am asesiad Gweld a Thrin;**
- **Amseroedd teithio hir yng nghefn ambiwlans ar stretsier caled;**
- **Symudiad y cerbyd tra ar y ffordd a all achosi ffrithiant i'r croen;**
- **Amseroedd aros estynedig yng nghefn ambiwlans ar stretsier caled y tu allan i Adrannau Achosion Brys.**

O fewn y rhan hon o'r Fframwaith, byddwn yn datblygu ein strategaethau ar gyfer ymwybyddiaeth o friwiau pwyso a ffyrdd y gallwn wella ein gwasanaeth i gyfrannu at y gwaith parhaus cenedlaethol yn y maes hwn.



**“Mae'r gwelliannau yn amrywio o atal, i gefnogi cymunedau a gwasanaethau lleol i helpu i ddarparu'r gofal iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn.”**

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

**EBRILL 2024**

**@WelshAmbulance**

**WelshAmbulanceService**

**@welshambulanceservice**

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
**ambulance.nhs.wales**